# Gweledigaeth ar gyfer Dyfodol Tecach: **Blaenoriaethau ar gyfer Ysgrifennydd newydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

RNIB
Cymru

Golwg gwahanol
See differently




**RNIB Cymru yw'r elusen colled golwg fwyaf yng Nghymru, ac yr ydym yn darparu cymorth a gwasanaethau ar gyfer pobl ddall ac â golwg rhannol, yn ogystal â'u teuluoedd, ffrindiau, a gofalwyr, i helpu wella bywydau a grymuso pobl i fyw'n dda gyda cholled golwg.**

Mae tua 112,000 o bobl yn byw gyda cholled golwg yng Nghymru, a rhagwelir bydd y nifer hwn yn dyblu erbyn 2050.

© RNIB elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (226227), yr Alban (SCO39316), Ynys Manaw (1226). Yn gweithredu hefyd yng Ngogledd Iwerddon.

**Mae cerdded a thrafnidiaeth gyhoeddus yn allweddol i pobl ddall ac â golwg rhannol er mwyn cynnal annibyniaeth, cadw'n heini, cadw mewn cysylltiad ag eraill, cyrchu cyfleoedd addysg a chyflogaeth, yn ogystal â gwasanaethau allweddol megis gofal iechyd.**



Yr ydym yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o Gymru sydd yn decach, wyrddach ac yn gyfrifol ar lefel fyd-eang. Fodd bynnag, mae rhai newidiadau diweddar i gynllun ein trefi a'n dinasoedd a'r ffordd yr ydym yn teithio yn effeithio ar ddiogelwch pobl â cholled golwg.

Dyma rai o'r heriau y mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn eu hwynebu'n gyson wrth deithio:

- Llwybrau cyd-ddefnyddio
- Arosfannau 'byrddio bysiau', lle mae cerddwyr yn cael eu gorfodi i groesi llwybr beicio i fyrddio neu ddod oddi ar fws
- Diffyg nodweddion diogelwch a hygyrchedd sylfaenol hanfodol ar drenau a bysiau
- Risg o wrthdrawiadau gyda cherbydau meicrosymudol sy'n dawel a chyflym ac e-sgwteri sy'n anodd iawn i ganfod
- Ceir wedi parcio, e-sgwteri, byrddau hysbysebu a rhwystrau stryd eraill ar balmentydd all arwain at faglu a chwympo neu hyd yn oed orfodi pobl oddi ar y palmant ac i mewn i draffig

Mae dylunio cynhwysol yn well i bawb, drwy sicrhau bod y gymuned gyfan yn gallu cael mynediad i'w hardal a'i mwynhau.



**Mae RNIB Cymru yn cefnogi eich gweledigaeth ar gyfer Cymru decach a mwy cyfartal. Gofynnwn i chi ganolbwyntio ar y blaenoriaethau canlynol:**

1. Blaenoriaethu diogelwch pobl anabl wrth i gynlluniau Teithio Llesol gael eu cyflwyno ar draws Cymru, drwy mewnblannu Egwyddorion Allweddol ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol RNIB i ganllawiau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru
2. Cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wahardd parcio ar balmentydd.
3. Sicrhau fod hygyrchedd ar flaen y gad mewn cynlluniau i ddiwygio a gwella gwasanaethau bysiau, drwy ddarparu gwybodaeth hygyrch, cyhoeddiadau sain, a seilwaith safleoedd bysiau a gorsafoedd sydd wedi'u dylunio'n gynhwysol.
4. Ymdrechu tuag at gael un o'r rhwydweithiau rheilffordd mwyaf hygyrch yn y DU drwy sicrhau bod gan bob gorsaf balmantau cyffyrddol ar blatfformau.
5. Sicrhau fod camau'n cael eu cymryd yn erbyn defnydd anghyfreithlon o e-sgwteri ar ein palmentydd ac ardaloedd i gerddwyr a pharhau i beidio â chymryd rhan yn y treialon cynllun rhentu e-sgwteri sy'n cael eu cynnal mewn rhannau eraill o'r DU
6. Sicrhau bod tocyn teithio integredig rhad ac am ddim ar gael i holl bobl anabl Cymru, yn debyg i'r cynllun Cerdyn Hawliau Cenedlaethol yn yr Alban.

RNIB Cymru bob amser yn hapus i gynorthwyo Llywodraeth Cymru i ymgysylltu'n ystyrlon â phobl ddall ac â golwg rhannol. Byddem yn falch iawn o weithio ar y cyd â chi yn eich rôl newydd fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd i ddatblygu atebion sy'n cefnogi'r newid i sero net mewn ffordd sy'n ddiogel ac yn gynhwysol i bawb.

Mae gennym gyfle i wneud Cymru yn rhywle lle mae pobl ddall ac â golwg rhannol yn falch o'i alw'n gartref, sy'n cefnogi eu huchelgeisiau ac yn caniatáu iddyn nhw fyw bywyd llawn ac actif.

**Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi a'ch cabinet i wireddu'r weledigaeth hon.**